# Canllaw i Arfer Diogelu Da

## Ymdrin â datgeliadau diogelu a gweithdrefn ar gyfer adrodd am bryderon a honiadau o gam-drin ac esgeulustod

Mae'r Canllaw Arfer Da hwn yn amlinellu canllawiau pwysig i staff y Brifysgol a'r holl unigolion eraill sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol (e.e., gwirfoddolwyr, contractwyr, cyflogeion trydydd parti, aelodau o staff dros dro/interim, ymgynghorwyr, etc.) i'w ddilyn wrth weithio gydag unrhyw un dan 18 oed neu oedolion mewn perygl. Dylid ei ddarllen yn unol â Pholisi Diogelu'r Brifysgol.

Gall achosion o gam-drin ddod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol. Efallai y byddwch chi wedi sylwi ar arwyddion o gam-drin, efallai y byddwch chi wedi bod yn dyst i gam-drin ac mewn rhai achosion, efallai y byddwch chi dim ond yn cael gwybod am gam-drin oherwydd bod rhywun yn ei ddatgelu i chi'n uniongyrchol. Datgeliad yw'r broses lle bydd rhywun yn dechrau rhannu ei brofiadau o gam-drin ag eraill.

Gall datgeliadau ynghylch materion diogelu fod yn berthnasol i g**am-drin neu esgeuluso plant yn wirioneddol neu a amheuir (e.e. dan 18 oed) ac oedolion mewn perygl.** Bydd cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn helpu i sicrhau y caiff gwybodaeth ei datgelu am gam-drin neu esgeuluso posib yn brydlon ac yn briodol.

*******************************************************

**<u>Mewn achosion o berygl neu niwed dybryd</u>**

- Pan amheuir bod person dan 18 oed neu oedolyn mewn perygl dybryd o niweidio ei hun a/neu mae'n peryglu eraill, ffoniwch dîm diogelwch y Brifysgol ar 333 (Singleton) neu 6010 (y Bae) (Yn allanol: 01792 604271) a/neu'r gwasanaethau brys ar 999. Mae cymorth ychwanegol ar gael drwy'r [ap Safe Zone.]
- Dylid gwneud pob ymdrech i geisio peidio â chynnig man diogel i'r person dan 18 oed neu'r oedolyn mewn perygl nes bydd yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol yn bresennol.
- Peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl - byddwch yn ymwybodol o'ch diogelwch chi a chymryd camau i leihau'r risg o niwed.
- Peidiwch â siarad neu gysylltu â'r cyflawnwr honedig, na thrafod ag unrhyw bobl sy'n dyst i ddigwyddiad (e.e. ffrindiau, cyd-breswylwyr a/neu berthnasoedd).
- Pan fydd sefyllfa frys dan reolaeth ac mae'r digwyddiad yn cael ei reoli, dylid **adrodd am unrhyw faterion diogelu cysylltiedig wrth Swyddog Diogelu Dynodedig y Brifysgol a'r Pennaeth Diogelu.**

**Datgeliadau diogelu – sut i ymateb?**

Yn ystod y sgwrs pan fyddwch chi'n cael gwybod am yr hyn mae person dan 18 oed neu oedolyn mewn perygl yn ei brofi, neu mewn perygl ohono, neu gam-drin neu esgeulustod (p'un a'ch bod chi'n cyfathrebu'n uniongyrchol â'r person dan 18 oed/oedolyn mewn perygl neu berson arall), dylech chi:

- Ymateb mewn ffordd ddigyffro ond pryderus.
- Gwrandewch yn dawel, yn ofalus ac yn amyneddgar.
- Gadewch i'r person siarad heb darfu arno, gan osgoi gofyn unrhyw gwestiynau arweiniol.
- Peidiwch â thorri ar draws y person pan fydd yn cofio digwyddiadau arwyddocaol.
- Nid eich rôl chi fel y person sy'n derbyn y datgeliad yw ymchwilio, ond gallwch chi ofyn cwestiynau agored i helpu i gadarnhau a yw'r person dan 18 oed neu'r oedolyn mewn perygl o niwed. Defnyddiwch yr acronym **TED** (sy'n sefyll am 'tell, explain, describe') (e.e., "dywedwch ychydig yn fwy wrtha i am yr hyn a ddigwyddodd", "allwch chi esbonio/disgrifio'r hyn a ddigwyddodd i mi?").
- Meddyliwch yn ôl/ail-adroddwch yr hyn mae'r person wedi'i ddweud i wirio eich bod chi wedi ei ddeall yn iawn.
- Dylech chi drin sylwadau'r person o ddifrif a'i sicrhau ei fod wedi gwneud y peth iawn yn dweud wrthych chi.
- Ceisiwch osgoi cysylltiad corfforol â'r person oni bai ei fod yn wirioneddol angenrheidiol (e.e., i roi cymorth cyntaf, cynnig cymorth i symud) a pheidiwch â thynnu dillad i weld anafiadau. Os oes cysylltiad corfforol wedi bod, mae'n bwysig eich bod chi'n ei gofnodi ac yn ei esbonio yng nghyd-destun yr hyn a ddigwyddodd.
- Peidiwch â dweud a ydych chi'n credu'r hyn mae'r person yn ei honni ai peidio - eich rôl chi yw casglu gwybodaeth sylfaenol er mwyn eich galluogi chi i adrodd am y mater.
- Lle bo'n briodol, cyfeiriwch y person i'r gwasanaethau cymorth arbenigol perthnasol (e.e., manylion cyswllt mewn argyfwng, gwasanaethau cwnsela, meddyg teulu, etc) ac ailadrodd y rhain drwy e-bost.
- Esboniwch fod angen i chi rannu'r wybodaeth a byddwch chi'n ystyried yr hyn a fydd yn digwydd nesaf.
    - Ar gyfer pobl dan 18 oed, nid oes angen cydsyniad ond dylid eu hannog i gytuno i rannu'r wybodaeth. Os byddant yn gwrthod, esboniwch y gallai fod yn rhaid i chi ei rannu o hyd.
    - Yn achos oedolion mewn perygl, dywedwch y byddwch chi'n trafod y mater â'r Swyddog Diogelu Dynodedig a gofyn a yw'n cydsynio bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill.
- **Peidiwch â gwneud addewidion na allwch chi eu cadw a pheidiwch byth â chytuno i gadw cyfrinach.** Byddai enghraifft o hyn yn cynnwys dweud wrth rywun sydd wedi gwneud datgeliad am

Swansea University
Prifysgol Abertawe

gam-drin eich bod chi'n addo i sicrhau na fydd byth yn digwydd eto. Hyd yn oed drwy wneud hyn gyda phob ewyllys da, dyma rywbeth nad oes modd i chi ei warantu. Enghraifft arall yw pan fydd rhywun yn gwneud datgeliad i chi ond yn gofyn i chi addo i beidio â'i rannu ag unrhyw un arall.

- Dylech chi roi sicrwydd i'r person yr ymdrinnir â'r wybodaeth mae wedi'i rhannu â chi'n sensitif a dim ond yn ei rhannu â'r bobl hynny mae angen iddynt ei gwybod. – **peidiwch ag addo cyfrinachedd.** Esboniwch, os bydd angen, na allwch chi addo cyfrinachedd i unrhyw un oherwydd gallai fod sefyllfaoedd lle bydd angen rhannu materion i sicrhau y caiff pawb ei gadw'n ddiogel.
- Os gwneir y datgeliad pan fydd y cyflawnwr honedig yn bresennol, PEIDIWCH â thrafod y datgeliad ag ef, gan gynnwys unrhyw gamau dilynol byddwch chi'n eu cymryd.

**Pethau i'w Cofio:**

- Ceisiwch osgoi gofyn cwestiynau arweiniol – cwestiynau yw'r rhain sy'n awgrymu neu'n cynnwys ateb ynddynt, a gallant fod yn ffordd gynnil o annog y person i wneud datgeliad mewn ffordd benodol.
- Gall cwestiynau arweiniol amharu ar y datgeliad, gan annog yr ymatebydd i ateb yn y ffordd rydych chi am ei glywed yn ei farn ef, neu yr ydych chi'n gyffyrddus ag ef yn hytrach na'r hyn rydych chi am ei rannu.
- Mae enghreifftiau o gwestiwn arweiniol yn cynnwys atebion syml fel "ie" neu "na" neu ble bydd yn rhaid i chi gadarnhau rhywbeth, e.e. “Mae eich partner wedi'ch bwrw, ond dyw e?".

**Yn dilyn y drafodaeth**, gwnewch nodiadau manwl am y sgwrs. Mae cofnod cywir o ddatgeliad yn hanfodol oherwydd gellir defnyddio hyn yn ddiweddarach mewn treialon troseddol neu gamau cyfreithiol.

- Beth gafodd ei ddweud, neu beth weloch chi, sy'n awgrymu'r hyn y gallai plentyn dan 18 oed neu oedolyn mewn perygl ei brofi, neu mewn perygl o gam-drin neu esgeuluso?
- Ble bynnag y bo'n bosib, dyfynnwch yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan yr unigolyn, yn hytrach na chrynhoi neu aralleirio.
- Disgrifiwch unrhyw anafiadau corfforol rydych chi’n eu gweld neu eitemau eraill a ddangoswyd i chi o ran y datgeliad (e.e., ffonau symudol mewn achosion o seiberfwlio)
- Gwnewch nodiadau gofalus am unrhyw wybodaeth am y cyflawnwr honedig a dyddiadau, amseroedd, enwau neu leoedd arwyddocaol.
- Cadarnhewch ble a phryd y gwnaed y datgeliad, a phwy arall oedd yn bresennol.
- Ychwanegwch unrhyw gysylltiad a ddigwyddodd – e.e. cyffyrddiad corfforol, bod yn agos iawn etc a chyd-destun hyn.
- Ceisiwch gadarnhau, lle bo'n bosib, y berthynas sydd gan y person â'r Brifysgol – a yw'n fyfyriwr, yn aelod o staff, yn ymwelydd ar y campws neu'n drydydd parti arall?
- Beth yw manylion cyswllt y person/pobl a allai fod mewn perygl?

- Llofnodwch a rhowch ddyddiad ar eich adroddiad

Os ydych chi'n cofio rhywbeth arall ar ôl gwneud eich nodiadau wnaethoch chi ddim ei gofnodi, mae'n dderbyniol ychwanegu atodiad i'ch nodiadau ond nodwch y dyddiad a'r amser pan wnaethoch yr ychwanegiadau.

Peidiwch â rhannu'r nodyn hwn ag unrhyw un ar wahân i'r rhai hynny rydych chi'n adrodd eich pryder wrthyn nhw yn y cam nesaf.

*****************************************************

**Gweithdrefn ar gyfer adrodd am bryderon a honiadau o gam-drin ac esgeuluso**

Os ydych chi'n poeni y bydd plentyn (dan 18 oed) neu oedolyn mewn perygl sy'n gysylltiedig â chymuned y Brifysgol yn profi neu mewn perygl o gam-drin, esgeuluso neu niwed neu bryder y gallai rhywun sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol fod yn niweidio plentyn (dan 18 oed) neu oedolyn mewn perygl, dylech chi:

- wneud nodyn gofalus am eich pryderon, fel nad ydych yn anghofio dim.
- adrodd am eich pryderon yn brydlon ac o fewn 24 awr, gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd ar-lein (gellir gofyn am gyngor gan eich rheolwr llinell).
- dweud wrth Swyddog Diogelu Dynodedig eich adran/cyfadran.

Caiff y ffurflen a gwblhawyd ei hanfon yn awtomatig i'r Tîm Diogelu a fydd yn gweithio gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig i sicrhau y bydd ymateb sensitif a phrydlon i'r holl bryderon a honiadau.

Mae gwybodaeth fanwl am ddulliau adrodd ac atgyfeirio a chanllawiau arfer da ar gyfer ymdrin â datgeliadau diogelu a phryderon am gam-drin ac esgeuluso ar gael ar dudalennau gwe y Brifysgol.

**Pwysig:** **Os ydych chi ar leoliad gwaith neu yn un o fangreoedd partner y Brifysgol,** dylech chi adrodd y pryder drwy drefniadau diogelu'r corff partner perthnasol. Gall codi pryder drwy drefniadau'r Brifysgol uchod hefyd fod yn briodol, yn enwedig os nad ydych chi'n fodlon ag ymateb y sefydliad neu'n ansicr pa lwybr i'w ddilyn. **Os oes angen cadarnhad arnoch am unrhyw gamau a allai fod angen eu cymryd mewn perthynas â phryder diogelu, siaradwch â Swyddog Diogelu Dynodedig.**

**Y Camau Nesaf**

**Bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn cydlynu camau pellach** sy'n gysylltiedig â'r datgeliad a bydd yn gwneud penderfyniad cychwynnol am yr angen i atgyfeirio at awdurdodau diogelu lleol neu'r Heddlu, gan ofyn am gyngor gan y Pennaeth Diogelu, yn ôl yr angen.

Efallai y bydd yn rhai i'r Swyddog Diogelu Dynodedig siarad ymhellach â chi. Efallai y bydd hefyd angen siarad â'r person a wnaeth y datgeliad, neu y bydd gofyn i chi drefnu'r drafodaeth hon neu fod yn bresennol wrth ei chynnal. Mewn rhai achosion, gellir gofyn i chi fynd i gyfarfodydd mewnol eraill am y datgeliad neu, yn ddiweddarach, gymryd rhan mewn cyfarfodydd ag awdurdodau diogelu statudol.

Fel arall, mae'n bosib y byddwch chi'n clywed manylion y datgeliad nad ydynt yn dod o dan gwmpas y Polisi Diogelu. Yn yr achosion hyn, fel arfer byddwch chi'n cael eich cynghori am ffyrdd eraill y gallech chi a'ch tîm gefnogi'r unigolyn/unigolion dan sylw.

*******************************************************

**Cyfrinachedd**

Dylid ymdrin â'r holl bryderon a honiadau diogelu yn gyfrinachol. Fodd bynnag, er y gellir gwahodd yr unigolion hyn i gymryd rhan mewn prosesau diogelu statudol gan yr awdurdodau diogelu, nid oes modd gwarantu cyfrinachedd llawn.

**Cymorth ychwanegol**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai derbyn datgeliad beri trallod i'r bobl dan sylw a gall gynnig amrywiaeth o gefnogaeth. Y cam cyntaf yw siarad â'r rheolwr llinell neu Bartner Busnes AD perthnasol (aelodau o staff), neu diwtor personol neu oruchwylydd academaidd (myfyrwyr).

**Rhestr o Dermau**

Mae rhestr eirfa a chwestiynau cyffredin ar gael ar ein Tudalennau Gwe Diogelu i gael rhagor o wybodaeth ac eglurder.